## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A44 (MAN I'R DWYRAIN O EISTEDDFA GURIG, POWYS I FAN I'R DWYRAIN O BONTERWYD, CEREDIGION) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2025

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A44, neu gerllaw iddi, rhwng Eisteddfa Gurig a Phonterwyd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A44 sy'n ymestyn o'r ail gilfan a leolir i'r dwyrain o Eisteddfa Gurig, Powys hyd at ei chyffordd â'r C1142 (Nant-y-moch), i'r dwyrain o Bonterwyd, Ceredigion, sydd oddeutu 8.5 cilometr o bellter.

Tra bod gwaith yn mynd rhagddo rhwng Eisteddfa Gurig a Dyffryn Castell, y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin yw mynd ar yr A470 tua'r gogledd o Langurig i Lantwymyn, yr A489 tua'r de-orllewin i Fachynlleth, yr A487 tua'r de i Bow Street a'r A4159 tua'r dwyrain i Gylchfan Gelli Angharad i ailymuno â'r A44 tua'r dwyrain: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain.

Ar gyfer gwaith rhwng Dyffryn Castell a Phonterwyd, y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin yw mynd ar y B4343 tua'r de yn Nyffryn Castell, yr A4120 tua'r gorllewin drwy Bontarfynach i Gylchfan Southgate, Aberystwyth, yna tua'r gogledd drwy Heol-y-bont i ailymuno â'r A44 yn Llanbadarn Fawr: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 30 Mehefin 2025. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol yn ysbeidiol rhwng 06:00 o'r gloch ar 30 Mehefin a 06:00 o'r gloch ar 28 Gorffennaf 2025, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

## THE A44 TRUNK ROAD (EAST OF EISTEDDFA GURIG, POWYS TO EAST OF PONTERWYD, CEREDIGION) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2025

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A44 trunk road between Eisteddfa Gurig and Ponterwyd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the A44 trunk road that extends from the second lay-by located to the east of Eisteddfa Gurig, Powys to its junction with the C1142 (Nantymoch), east of Ponterwyd, Ceredigion, a distance of approximately 8.5 kilometres.

Whilst works are undertaken between Eisteddfa Gurig and Dyffryn Castell, the alternative route for westbound vehicles is via the northbound A470 from Llangurig to Cemmaes Road, south-westbound A489 to Machynlleth, southbound A487 to Bow Street and eastbound A4159 to Lovesgrove Roundabout to rejoin the eastbound A44: vice versa for eastbound vehicles.

For works between Dyffryn Castell and Ponterwyd, the alternative route for westbound vehicles is via the southbound B4343 at Dyffryn Castell, westbound A4120 through Devil's Bridge to Southgate Roundabout, Aberystwyth then northbound via Heol y Bont to rejoin the A44 at Llanbadarn Fawr: vice versa for eastbound vehicles.

The Order comes into force on 30 June 2025. The temporary prohibition is expected to operate intermittently from 06:00 hours on 30 June until 06:00 hours on 28 July 2025, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M J CLARKE**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M J CLARKE**
Transport
Welsh Government